# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg

Lleoliad:
**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**
Dyddiad: Dydd Mercher, 19 Tachwedd 2025
Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Naomi Stocks**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddPlant@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

09.15 - 09.30

## Cyfarfod cyhoeddus

09.30 - 12.15

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

## 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 - sesiwn dystiolaeth

09.30 - 11.00 (Tudalennau 1 - 62)

Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Dawn Bowden AS, Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Sarah Murphy AS, Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru
Alex Slade, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru
Sioned Rees, Cyfarwyddwr Diogelu Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru
Hywel Jones, Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

## Egwyl

11.00 - 11.15

## 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 - sesiwn dystiolaeth

11.15 - 12.15 (Tudalennau 63 - 80)

James Owen, Prif Weithredwr, Medr

Geoff Hicks, Cyfarwyddwr Datblygu, Buddsoddi a Pherfformiad, Medr

Rhian Edwards, Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi a Buddsoddi, Medr

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

## 4 Papurau i'w nodi

12.15

### 4.1 Gweithredu diwygiadau addysg

(Tudalen 81)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**4.2 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol**

(Tudalen 82)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

**4.3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27**

(Tudalen 83)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**4.4 Gwybodaeth gan Randdeiliaid**

(Tudalennau 84 - 85)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

**4.5 Craffu cyffredinol ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

(Tudalennau 86 - 87)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

12.15

## Cyfarfod preifat

12.15 – 12.30

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026–27 – trafod y dystiolaeth

12.15 – 12.30

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru

# Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
# Tystiolaeth i lywio’r gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gofal Cymdeithasol

19/11/2025


## Crynodeb

Mae’r ddogfen hon yn ymateb i gais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am wybodaeth i lywio’r gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft 2026-27.

Tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

## Cynnwys


1. Dyraniadau i blant a phobl ifanc ........ 3
2. Asesu'r effaith ........ 7
3. Y Rhaglen Lywodraethu ........ 11
   3.1 Gwasanaethau Eirioli ........ 11
   3.2 Gwasanaethau Preswyl Rhanbarthol ........ 12
   3.3 Dileu Elw Preifat ........ 13
   3.4 Cymorth ar gyfer Anghenion Cymhleth ........ 13
   3.5 Y Gronfa Gofal Plant ........ 14
   3.6 Ehangu'r Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar ........ 16
   3.7 Dechrau'n Deg ........ 17
4. Gofal cymdeithasol i blant ........ 18
   4.1 Gweithlu Gofal Cymdeithasol i Blant ........ 18
   4.2 Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ........ 19
   4.3 Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o Ofal ........ 20
5. Iechyd Plant ........ 22
   5.1 Mynd i'r afael ag amseroedd aros pediatrig y GIG ........ 22
   5.2 Gwella iechyd deintyddol plant ........ 23
   5.3 Strategaeth gordewdra ........ 25
   5.4 Gwasanaethau iechyd meddwl ........ 26
   5.5 Atal hunanladdiad ........ 28
   5.6 Gwasanaethau niwroddatblygiadol ........ 28
   5.7 Iechyd y cyhoedd ........ 29
   5.8 Camddefnyddio sylweddau ........ 30
6. Costau byw a newidiadau i Yswiriant Gwladol ........ 32
   6.1 Byrddau Iechyd: ........ 32
   6.2 Gwasanaethau cymdeithasol ........ 32
   6.3 Tlodi plant ........ 33
   6.4 Cyfraniadau Yswiriant Gwladol: ........ 34
7. Costau deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r portffolio. ........ 36
   7.1 Costau gweithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ........ 36
   7.2 Goblygiadau ariannol ........ 36
   7.3 Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd y DU . 36

## 1. Dyraniadau i blant a phobl ifanc

Dyraniadau yn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd yn ôl Gweithred, a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) (fel y bo'n uniongyrchol berthnasol i blant a phobl ifanc):

- Cyllideb Ddrafft 2026-27.
- Dyraniadau Cyllideb Derfynol 2024-25.
- Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26.
- Unrhyw gyllidebau dangosol a bennwyd ar gyfer y tu hwnt i 2026-27.

Disgrifiad o unrhyw newidiadau i'r llinell sylfaen yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 o'r Gyllideb Atodol Gyntaf, Mehefin 2025.

**Ymateb:**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb - REFENIW** | **2025-26**<br><br>**Cyllideb Derfynol** | **2025-26**<br><br>**Cyllideb Atodol Gyntaf** | **Newidiadau ar gyfer 2026-27**<br><br>**Cyllideb Ddrafft** | **2026-27**<br><br>**Cyllideb Ddrafft** |
|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| *Cymru Iachach* – (Y Blynyddoedd Cynnar) – BEL 60 | 6.850 | 6.850 | 0.000 | 6.850 |
| Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae – BEL 310 | 88.778 | 88.163 | -0.615 | 88.163 |
| Cymorth ar gyfer Hawliau Plant – BEL 311 | 1.445 | 1.449 | 0.004 | 1.449 |
| Cymorth i Blant – BEL 410 | 3.865 | 3.867 | 0.002 | 3.867 |
| Ad-daliad Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o fod Mewn Gofal – BEL 6665 | 0.000 | 0.000 | 7.603 | 7.603 |
| Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o fod Mewn Gofal – BEL 6666 | 0.000 | 0.000 | -5.835 | -5.835 |
| Cymorth i Deuluoedd a Phlant – BEL 1085 | 5.535 | 5.551 | 0.016 | 5.551 |
| Grant Plant a Chymunedau – BEL 1087 | 222.083 | 222.083 | 0.195 | 222.278 |
| Cafcass Cymru – BEL 1268 | 16.677 | 17.025 | 0.348 | 17.025 |
| **CYFANSWM** | **345.233** | **344.988** | **1.718** | **346.951** |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb - CYFALAF** | **2025-26**<br><br>**Cyllideb Derfynol** | **2025-26**<br><br>**Cyllideb Atodol Gyntaf** | **Newidiadau ar gyfer 2026-27**<br><br>**Cyllideb Ddrafft** | **2026-27**<br><br>**Cyllideb Ddrafft** |
|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Ad-daliad Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o fod Mewn Gofal – BEL 6665 | 0.000 | 0.000 | -1.618 | -1.618 |
| Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o fod Mewn Gofal - BEL 6666 | 0.000 | 0.000 | 1.057 | 1.057 |
| **CYFANSWM** | **0.000** | **0.000** | **-0.561** | **-0.561** |

Mae cyfrifoldeb cyllidebol a rheolaeth ar y gronfa Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) Buddsoddi i Arbed (I2S) yn y dyfodol (BEL 6665 a BEL 6666 Ad-daliad Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o fod Mewn Gofal a Chronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o fod Mewn Gofal) wedi trosglwyddo o'r Prif Grŵp Gwariant Gwasanaeth Canolog a Gweinyddu i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel rhan o broses y Gyllideb Ddrafft er mwyn cyd-fynd yn well ag amcanion polisi ehangach a darparu gwasanaethau.

Mae'r newidiadau cynyddol i gyllideb Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a weithredwyd fel rhan o broses yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2025-26 wedi cael eu gosod fel llinell sylfaen yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27. Mae hyn wedi arwain at y dyraniadau ychwanegol canlynol ar gyfer y cyllidebau uchod:

- £0.029m BEL 310 Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae
- £0.004m BEL 311 Cymorth i Hawliau Plant
- £0.002m BEL 410 Cymorth i Blant
- £0.016m BEL 1085 Cymorth i Deuluoedd a Phlant
- £0.348m BEL 1268 Cafcass Cymru

Yn ogystal â'r newidiadau a nodir uchod, mae trosglwyddiad o £0.195m o BEL 310 Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae i BEL 1087 Grant Plant a Chymunedau wedi cael ei gwblhau er mwyn ariannu'r Adolygiad Cydbwysedd Cyfraddau. Mae trosglwyddiad o £0.449m o BEL 310 Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg wedi cael ei gwblhau er mwyn ariannu elfen feithrin o'r £30m ychwanegol a gafwyd ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru, a oedd yn rhan o gytundeb Cyllideb Derfynol 2025-26.

**Yng ngoleuni cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ar 1 Gorffennaf y bydd cyllideb 2026-27 yn cynyddu cyllidebau adrannol yn ôl chwyddiant, yn hytrach nag adlewyrchu polisïau a blaenoriaethau newydd, sut mae Ysgrifennydd y Cabinet a Gweinidogion wedi gallu ystyried materion sy'n dod i'r amlwg ac sy'n gwaethygu ar gyfer plant a phobl ifanc ers gosod cyllideb 2025-26.**

**Ymateb:**

Y Gyllideb Ddrafft yw man cychwyn proses gyllidebol Llywodraeth Cymru – nid ei diwedd hi. Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn seiliedig ar sylfaen gadarn cyllideb y llynedd, a oedd yn cynnwys £1.6bn o ymrwymiadau gwario newydd, gan alluogi gwasanaethau cyhoeddus i ddechrau cynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27. Mae'n dyrannu 98.6% o'r cyllid sydd ar gael, gan adael lle ar gyfer rhagor o fuddsoddiad ym mlaenoriaethau a gwasanaethau cyhoeddus Cymru erbyn y Gyllideb Derfynol fis Ionawr.

Ein huchelgais gadarn yw sicrhau Cyllideb Derfynol sy'n defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2026-27. Mae'r llywodraeth yn dal yn agored i gydweithio â phleidiau eraill yn Senedd Cymru i gytuno ar gyllideb, gan bwysleisio'r cyfrifoldeb ar y cyd i basio cyllideb er budd dinasyddion Cymru.

Mae'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSC) wedi cael cynnydd yn llinell sylfaen ei adnoddau cyllidol rheolaidd o £186m mewn perthynas â 2025-26. Mae hyn yn adlewyrchu'r dyraniad ychwanegol tuag at effaith y cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr a hefyd cyllid cyflogau'r sector cyhoeddus o 2025-26 ymlaen. Mae'r dyraniad ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn gadael diffyg o tua £16m mewn cyllid ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol – mae hyn yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir ar draws Llywodraeth Cymru.

Mae'r dyraniadau cyllideb newydd a wnaed yn 2025-26 a oedd yn darparu £30m ychwanegol ar gyfer llwybrau gofal mewn gofal cymdeithasol a £30m ar gyfer gofal plant, wedi cael eu gwneud yn rheolaidd a'u pennu yn y llinell sylfaen ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2026-27.

Y llinell sylfaen adnoddau cyllidol ddiwygiedig ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw £12.162 biliwn. Mae'r dull sy'n cael ei ddefnyddio yn y Gyllideb Ddrafft hon yn golygu y bydd y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael cynnydd chwyddiant o £259m ar gyfer 2026-27. Mae hyn yn rhoi cyfanswm cyllideb o £12.422 biliwn ar gyfer adnoddau cyllidol.

Mae'r dyraniad ychwanegol hwn i'r gyllideb yn darparu ar gyfer cynnydd o 2.2% ar gyfer y codiadau cyflog disgwyliedig sy'n ofynnol yn y Prif Grŵp Gwariant a chynnydd o 2% ar gyfer adnoddau cyllidol nad ydynt yn ymwneud â chyflogau. Er bod hyn yn cynrychioli sefyllfa gychwynnol yn y Gyllideb Ddrafft a bod disgwyl y bydd newid erbyn cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol fis Ionawr 2026, mae hon yn sefyllfa eithriadol o heriol, ar hyn o bryd, ar gyfer prif ddyraniad y GIG a'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol ehangach.

Bydd y cyllid ychwanegol yn cael ei gadw ar gyfer codiad cyflog y GIG ar gyfer 2026-27, yr ymrwymiadau cyflog eraill yn y Prif Grŵp Gwariant ac effaith reolaidd ymrwymiadau presennol sy'n ymwneud yn bennaf â'r gweithlu.

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr yn Perfformiad a Gwella'r GIG i asesu'r pwysau y bydd y GIG yn eu hwynebu flwyddyn nesaf o ran chwyddiant a thwf yn y galw. Ochr yn ochr â'r pwysau hysbys eraill ar draws y Prif Grŵp Gwariant ehangach, nid yw setliad drafft y gyllideb yn ddigonol i ateb y pwysau o ran costau amcangyfrifedig a'r materion rydym yn eu rhag-weld ar gyfer y GIG, a'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol ehangach, yn 2026-27.

Nid yw dyraniad y gyllideb ddrafft yn darparu cyllid ar gyfer parhau â mentrau amseroedd aros ychwanegol, a oedd wedi'i ariannu am £100m yn 2025-26. Nid yw'r un o'r opsiynau a ystyriwyd ar gyfer dyrannu'r cyllid ychwanegol ar gyfer 2026-27 yn cynnwys mentrau gofal wedi'i gynllunio, ond mae'r £20m y cytunwyd arno ar ddechrau 2025-26 o fewn y Prif Grŵp Gwariant ar gael.

Ar hyn o bryd, mae'r holl gyllid refeniw ychwanegol ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cael ei ddyrannu i brif BEL y GIG.

Bydd y fframwaith Cynllunio Tymor Canolig Integredig yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir ar gyfer y GIG, ac, ar hyn o bryd, gofynnir i sefydliadau'r GIG gynllunio ar gyfer dim cynnydd mewn gwariant ar gyfer unrhyw faterion y tu hwnt i chwyddiant cyflogau ar gyfer 2026-27. Bydd hyn yn sefyllfa eithriadol o heriol i GIG Cymru o ystyried y lefelau chwyddiant disgwyliedig mewn gofal iechyd, costau triniaethau newydd a'r twf cyffredinol yn y galw am wasanaethau.

Er ein bod yn bwriadu cwrdd ag effaith codiadau cyflog ar gyfer staff a ariennir yn uniongyrchol ar draws y Prif Grŵp Gwariant – hyd at 2.2%, yn unol ag amcangyfrifon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiad pellach mewn unrhyw gyllidebau eraill ar hyn o bryd yn ystod y cam hwn o broses cynllunio'r gyllideb, y tu hwnt i'r codiadau a wnaed yn 2025-26. Bydd hyn o bosib yn effeithio ar y cyllidebau sy'n ariannu plant a phobl ifanc yn uniongyrchol.

Bydd angen ystyried unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac sy'n gwaethygu ar gyfer plant a phobl ifanc ers gosod cyllideb 2025-26 yn y cyd-destun a nodir uchod.

## 2. Asesu'r effaith

- Asesiad cyfun o'r Effaith ar Hawliau Plant ar draws pob portffolio: Yr Asesiad cyffredinol o'r Effaith ar Hawliau Plant a gynhaliwyd i lywio'r dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27.
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2026-27.
- Effeithiau eraill: Manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ôl ystyried cydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg, a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Ymateb:**

Mae asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu cynnal fel rhan o'n gwaith parhaus o ddatblygu ac adolygu polisïau. Mae Asesiad Effaith Integredig Strategol yn un o gyfres o ddogfennau a gyhoeddir fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft ac mae'n hollbwysig i ganfod tueddiadau allweddol, effeithiau strategol a chronnol ar lefel portffolio, ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol ar draws y gofynion statudol.

Rydym yn credu bod y dull integredig sy'n sail i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o effeithiau croestoriadol ac anfwriadol penderfyniadau gwario, ac i gynyddu effaith unrhyw gyllid sydd ar gael, gan leihau effeithiau anghymesur ar unrhyw grŵp neu faes penodol. Mae perygl y bydd ystyried maes effaith ar ei ben ei hun yn arwain at ganlyniadau anfwriadol, fel effaith negyddol mewn un maes yn cael ei sbarduno gan effaith gadarnhaol mewn maes arall.

Mae *Cymru Iachach* yn amlinellu ein dull o ganolbwyntio mwy ar atal ac ymyrraeth gynnar. Rydym yn parhau i gefnogi hyn drwy gymorth cyffredinol a chymorth wedi'i dargedu. Yn nyraniad y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, caiff cyllid ei ddyrannu i gefnogi ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu mewn cysylltiad â'r blynyddoedd cynnar a gofal plant.
Mae ein cefnogaeth i'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn cyfrannu at yr holl nodau llesiant, ac yn benodol at y rhai sy'n ymwneud â Chymru lewyrchus ac

iachach. Mae buddsoddi mewn gofal plant a chwarae o ansawdd uchel yn gallu helpu plant ifanc i ddatblygu i fod yn oedolion iach ac egnïol. Mae'n datblygu eu llesiant gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, ac yn lliniaru effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae gofal plant hefyd yn galluogi rhieni i weithio a hyfforddi, ac yn codi teuluoedd allan o dlodi.

Mae ein Cynnig Gofal Plant yn cefnogi amcanion llesiant Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant
- Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb
- Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial
- Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw

Rydym wedi parhau i lunio ein dyraniadau cyllideb i gyd-fynd â chamau gweithredu ataliol, gan ganolbwyntio ar ymyriadau cadarnhaol sy'n diogelu ac yn adeiladu ar y sylfeini presennol, gan gynnwys ein hymrwymiad i hawliau plant. Mae'n bwysig nodi, ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27, y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i fyrddau iechyd.

Mae byrddau iechyd yn cynnal asesiadau effaith integredig o'r holl benderfyniadau gwario mawr, gan gynnwys gweithredu rhaglenni effeithlonrwydd ac arbedion. Maen nhw hefyd yn gorfod cydymffurfio â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector, a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae unrhyw newidiadau i wasanaethau hefyd yn cael eu hasesu o ran effaith i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn llawn ac mae'n ofynnol iddynt gadw cofnod o gost darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg. Mae penderfyniadau ariannu mewn byrddau iechyd yn ystyried yr asesiadau o anghenion y boblogaeth ar gyfer anghenion gofal a chymorth, fel rhan o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cyhoeddwyd set ddiwygiedig o 35 o gamau gweithredu ar gyfer *Cymru Iachach* ym mis Rhagfyr 2024. Mae'r rhain wedi cael eu categoreiddio o dan gyfres o themâu sy'n dangos sut dylai system iechyd a gofal effeithiol ac effeithlon edrych o ran sicrhau canlyniadau iechyd mwy cyfartal i boblogaeth Cymru. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys ffocws penodol ar atal, mynediad cyfartal, profiad, canlyniadau a chynaliadwyedd. Ar ben hynny, bydd y themâu trefnu canolog yn parhau i gefnogi ein gwaith gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu perthnasol yn ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl.

Wrth wreiddio camau gweithredu cydraddoldeb yn ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi sicrhau bod ein strategaethau a'n polisïau yn ystyried anghenion amrywiol pobl Cymru. Bydd asesiadau effaith integredig sy'n cael eu cynnal gan feysydd polisi unigol yn parhau i sicrhau ffocws parhaus a chryfach ar gydraddoldeb a'r Gymraeg.

**Diweddariad naratif o gynnydd y canlynol, sydd wedi'i gynnwys ar dudalen 4 eich ymateb i'n hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2025-26:**

*Ar hyn o bryd mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, yr adolygiad cyntaf ers ei gyflwyno yn 2015-16, i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben ac i ystyried lle gellid gwneud gwelliannau yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn dod i ben yn 2025. Trysorlys Cymru sy'n arwain yr adolygiad hwn gyda mewnbwn gan y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb (BIIAG).*

**Ymateb:**

Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal adolygiad manwl o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol. Roedd yn edrych ar yr Asesiad Effaith Integredig Strategol o'i ddechrau i'w ffurf bresennol ac yn ystyried ei bwrpas, ei gryfderau, ei effaith a'i gynulleidfa.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn cael ei gydnabod yn eang fel adnodd gwerthfawr sy'n dod â nifer o ystyriaethau statudol a strategol at ei gilydd mewn un broses, gan gefnogi penderfyniadau gwario mwy cytbwys a gwybodus.

Mae tri maes allweddol wedi cael eu nodi i ddatblygu a gwella'r Asesiad Effaith Integredig Strategol:

- Proses - Mae cyfle i wella'r ffordd rydym yn cynnal yr Asesiad Effaith Integredig Strategol. Canfu'r adolygiad fod angen mwy o eglurder a chysondeb o ran sut mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn cael ei ddatblygu ar draws Llywodraeth Cymru. Byddwn yn treialu dull newydd sy'n seiliedig ar weithdai, gan ddod â chydweithwyr o bob rhan o'r llywodraeth at ei gilydd a rhoi'r dystiolaeth wrth galon y trafodaethau hyn i gefnogi atebolrwydd. Bydd hyn yn parhau i wreiddio'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn fwy ystyrlon ym mhroses y gyllideb.
- Cynnwys - Drwy adeiladu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol drwy weithdai ymgysylltu, byddwn yn gallu defnyddio sylfaen ehangach o gydweithwyr, casglu lefel ddyfnach o wybodaeth drwy sgyrsiau a thrwy hynny wella dyfnder yr Asesiad Effaith Integredig Strategol.

- Cyflwyniad - Bydd gwella sut mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn cael ei strwythuro, ei ysgrifennu a'i rannu yn allweddol i gynyddu ei hygyrchedd, ei ddefnyddioldeb a'i ddylanwad cyffredinol.

Byddwn nawr yn symud ymlaen i gam nesaf y gwaith hwn. Ein bwriad yw cynnal cyfres o weithdai rhyngweithiol yr hydref hwn ar gyfer Asesiad Effaith Integredig Strategol 2026-27 a fydd yn cyd-fynd â'r Gyllideb nesaf. Bydd y gweithdai hyn yn cynnwys cyfraniadau o'n hunedau tystiolaeth a dadansoddi, rhanddeiliaid allweddol, yn ogystal â chydweithwyr polisi a chyllid i gael persbectif cwbl integredig. Bydd y sesiynau'n cael eu cynllunio i fod yn gydweithredol, gan greu gofod lle gall amrywiaeth eang o brofiadau gyfrannu at yr Asesiad Effaith Integredig Strategol.

## 3. Y Rhaglen Lywodraethu

Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 a'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid yng nghyd-destun Adroddiad Blynyddol diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer:

### 3.1 Gwasanaethau Eirioli

Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: Gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ymuno â'r system ofal.

Dyraniadau a naratif cysylltiedig yn nodi'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer 2026-27.

**Ymateb:**

Dyrannwyd £803,399 o gyllid Llywodraeth Cymru i ddarparwyr eiriolaeth rhieni yng Nghymru yn 2025-26: £506,000 o'r Gronfa Newid a £297,399 o gyllideb grant trydydd sector SSID.

Mae eiriolwyr rhieni annibynnol ar gael drwy Wasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru (Gwent, Caerdydd a'r Fro); a TGP Cymru (Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chwm Taf Morgannwg). Mae'r ddau wasanaeth yn gweithio gyda theuluoedd ym maes amddiffyn plant ac mae NYAS yn dweud eu bod yn gweithio gyda theuluoedd ar gynllun gofal a chymorth.

Dyma gostau presennol yr eiriolwyr annibynnol proffesiynol:

- NYAS Cymru **£474,399** ar gyfer saith awdurdod lleol.
- TGP Cymru **£236,000** ar gyfer 14 awdurdod lleol.

Mae rhwydweithiau eiriolaeth rhieni (PAN) Cymru yn cynnal caffis rhieni yng Ngorllewin Morgannwg i ddarparu cymorth eiriolaeth gan gymheiriaid i rieni sydd â phlant yn y maes amddiffyn plant.

Y costau presennol yw £93,000.

Ar gyfer 2026-27 rydym yn trafod gyda darparwyr ynghylch sut y gallwn wneud y cynnig cenedlaethol yn decach. Er mwyn sicrhau cysondeb, byddem yn cynnig bod cyllid yn cael ei ddyrannu'n fwy cyfartal er mwyn:

- Darparu eiriolwyr proffesiynol annibynnol cenedlaethol ar gyfer rhieni sydd â phlentyn, neu blant, sy'n derbyn gwasanaethau statudol; gan ganolbwyntio'n bennaf ar y rheini mewn gwasanaethau amddiffyn plant a gwasanaethau ar ffiniau gofal. Dylai hwn fod yn wasanaeth ar gyfer Cymru gyfan. Darperir hyn ar hyn o bryd drwy NYAS neu TGP Cymru ym mhob ardal, ar wahân i Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, felly mae angen ymestyn y gwasanaeth i gynnwys y ddau awdurdod hyn. Mae angen ystyried ymhellach sut mae'r cyllid hwn yn cael ei ddyrannu a faint o gynnydd fyddai ei angen i ddarparu'r gwasanaeth hwn i Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno model Caffis Be Strong Families i Rieni Rhwydweithiau Eiriolaeth Rhieni (PAN) Cymru, ledled Cymru. Mae PAN wedi cyflwyno cynllun tair blynedd i gyflwyno hyfforddiant ac achrediad i 22 awdurdod lleol, yn ogystal â chydlynu cenedlaethol, am gost o £133,600 y flwyddyn (£400,800 am dair blynedd) felly bydd angen £40,600 ychwanegol y flwyddyn ar gyfer hyn.

**3.2 Gwasanaethau Preswyl Rhanbarthol**

Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.

Dyraniadau a naratif ategol yn nodi'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer 2026-27.

**Ymateb:**

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn gofal preswyl therapiwtig a gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, a ddarperir drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPB).

Roedd data monitro ledled Cymru wedi nodi llinell sylfaen yn 2021-22 o 24 o gartrefi preswyl mewnol i blant sy'n darparu 105 o welyau i blant ag anghenion cymhleth. Dros y ddwy flynedd ddilynol, cynyddodd hyn drwy ychwanegu 21 o gartrefi mewnol newydd, gan gynnig 67 gwely arall. Ar ben hynny, yn ystod 2024-25 agorwyd 13 o gartrefi mewnol newydd gyda 39 o welyau, ac yn 2025-26 rydym yn disgwyl i 16 o gartrefi mewnol newydd gyda 64 o welyau agor.

Ar gyfer 2025-26, mae gan y Gronfa Tai â Gofal (HCF) gyllideb o £60.5 miliwn, gyda phlant ag anghenion cymhleth yn cael eu nodi fel un o'i grwpiau blaenoriaeth. Ein nod yw cynnal buddsoddiad tebyg yn 2026-27.

Mae'r Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Cyfalaf (IRCF) yn parhau i gefnogi'r gwaith hwn gyda dyraniad blynyddol o £70 miliwn hyd at 2026-27.

Ochr yn ochr â hyn, fe wnaethom sefydlu Fforwm Arferion Da gydag aelodaeth o fwy na 150 o ymarferwyr ar draws y sector, sy'n cyfrannu at ddatblygu pecyn arferion da.

**3.3 Dileu Elw Preifat**

Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: Dileu elw preifat o ofalu am blant sy'n derbyn gofal.

Dyraniadau a naratif ategol yn nodi'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer 2026-27.

**Ymateb:**

Dyfarnwyd £68m i awdurdodau lleol a rhanbarthau rhwng 2022-23 a 2024-25 drwy'r grantiau dileu elw a diwygio radical i'w helpu i ddileu elw, a helpu i leihau nifer y plant mewn gofal a rhoi cymorth i blant sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd. Mae £75m arall o gyllid wedi cael ei ddyfarnu rhwng 2025-26 a 2027-28 drwy'r grant dileu elw a diwygio radical, sydd bellach wedi'i gyfuno. Mae hyn yn cael ei rannu'n weddol gyfartal ar draws pob blwyddyn ariannol gyda tua £24.9m o gyllid wedi cael ei ddyfarnu ar gyfer 2026-27.

Ochr yn ochr â grant dileu elw a diwygio radical 2026-27, dyrannwyd cyllid hefyd fel a ganlyn:

- Tua £285k i Cwmpas i gefnogi darparwyr gofal plant 'er elw' sy'n ystyried ailsefydlu fel un o'r modelau nid-er-elw a nodir o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025.
- Tua £600k i Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer costau gweithredu sy'n ymwneud â dileu elw.

Mae cyllid dangosol hefyd wedi cael ei ddyrannu i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn parhau â'u gwaith o gefnogi dileu elw, gan ganolbwyntio ar gydlynu cynlluniau awdurdodau lleol.

**3.4 Cymorth ar gyfer Anghenion Cymhleth**

Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: Cymorth arbenigol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal.

Dyraniadau a naratif ategol yn nodi'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer 2026-27.

**Ymateb:**

Drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, rydym yn buddsoddi tua £19m y flwyddyn mewn gwasanaethau arbenigol therapiwtig i blant ag anghenion cymhleth. Roedd hyn wedi helpu i roi cymorth i 6,600 o blant a 3,200 o deuluoedd yn ystod 2024-25.

Mae'r mewnwelediadau a gafwyd o weithredu'r gwasanaethau hyn wedi helpu i ddiffinio canllawiau ymarfer cenedlaethol ar gyfer cymorth therapiwtig i blant â phrofiad o ofal a allai fod mewn gofal neu ar ffiniau gofal. Bydd y gwasanaethau hyn yn parhau i gael cyllid tebyg drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol drwy gydol 2026-27.

**3.5 Y Gronfa Gofal Plant**

Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: Ariannu gofal plant i ragor o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant, neu ar gyrion gwaith.

Dyraniadau a naratif ategol yn nodi'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer 2026-27.

Effaith gyffredinol a dyraniadau i gefnogi cynnydd yn y cyfraddau fesul awr a delir i ddarparwyr y Cynnig Gofal Plant o fis Ebrill 2025 ymlaen, sef £6.40 yr awr.
Sut mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn adlewyrchu penderfyniad Llywodraeth Cymru i adolygu'r gyfradd hon yn flynyddol o hyn ymlaen.

**Ymateb:**

**Dyraniad y gyllideb ar gyfer 2026-27**

Nid yw'n bosib darparu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd. Cyllideb sy'n cael ei harwain gan y galw yw Cynnig Gofal Plant Cymru. Mae swyddogion yn monitro gwariant drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod cymorth ariannol yn bodloni lefelau galw'r rhaglen. Bydd angen i gyllidebau 2026-27 ystyried gofynion o 2025-26 ymlaen ac unrhyw gytundeb yn dilyn adolygiad o'r gyfradd fesul awr a delir i leoliadau gofal plant. Rydym wedi ymrwymo i gynnal yr adolygiadau hyn yn flynyddol, a 2026-27 yw'r flwyddyn gyntaf yr effeithir arni.

**Allbynnau a chanlyniadau dymunol**

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod gofal plant fforddiadwy, hygyrch ac sydd ar gael yn galluogi rhieni i weithio. Mae ein Cynnig Gofal Plant yn cefnogi ein hymgyrch i gynyddu twf economaidd ac yn ceisio helpu ein hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldebau. Gwaith sy'n talu'n dda yw'r ffordd orau allan o dlodi, a'r amddiffyniad mwyaf rhag tlodi.

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn galluogi rhieni cymwys plant tair a phedair oed i gael hyd at 30 awr o addysg feithrin a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i blant am 48 wythnos y flwyddyn sy'n cynnwys darpariaeth yn ystod y gwyliau – y cynnig mwyaf hael yn y DU. Mae hefyd ar gael i rieni mewn hyfforddiant ac addysg.

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2023-24, mae'r rhaglen wedi rhoi cymorth i fwy na 21,200 o blant, sy'n 58% o'r boblogaeth gymwys amcangyfrifedig. Mae ffigurau ar gyfer blwyddyn academaidd 2024-25 yn cael eu paratoi ar hyn o bryd.

**Dyraniad i gefnogi cynnydd yn y cynnig Gofal Plant ar gyfer 2025-26.**

Dyrannwyd £5.637m i gynyddu cyfradd fesul awr y Cynnig Gofal Plant a oedd yn seiliedig ar amrywiaeth o dybiaethau ynghylch y galw a ragwelwyd gan rieni yn 2025-26 sy'n cyd-fynd â rhagolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfraddau geni cyfatebol yng Nghymru.

**Sut mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn adlewyrchu penderfyniad Llywodraeth Cymru i adolygu'r gyfradd fesul awr yn flynyddol**

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adolygu'r gyfradd fesul awr a delir i leoliadau gofal plant ac ar gyfer addysg feithrin yn flynyddol yn hytrach na'r cylch tair blynedd blaenorol. Mae'r adolygiad blynyddol o'r gyfradd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fod yn fwy ymatebol i bwysau ariannol sy'n effeithio ar ddarparu ein rhaglenni gofal plant wedi'u hariannu, fel newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Mae'r adolygiad hwn yn seiliedig ar nifer o ffactorau economaidd yn ogystal â phenderfyniadau polisi strategol ehangach Llywodraeth Cymru a gwaith ymgysylltu â'r sector drwy'r arolwg blynyddol. Felly, bydd unrhyw gynnydd yn y gyfradd a delir ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn amrywio o un flwyddyn i'r llall.

Ar hyn o bryd mae swyddogion yn dadansoddi canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd wedi digwydd yn ystod yr haf i hysbysu opsiynau ynghylch sut y dylai cynnydd, os o gwbl, edrych ar gyfer 2026-27. Bydd angen gwneud unrhyw benderfyniadau yng nghyd-destun y setliad ariannol terfynol a ddarperir i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

### 3.6 Ehangu'r Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar

Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: Mynd ati’n raddol i ehangu’r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau’r ddarpariaeth Gymraeg. (Nodwn eich bod, yn eich ymateb i'n hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2025-26, wedi dweud: “bydd parhau i ehangu ar ôl 2025-26 yn dibynnu ar sicrhau bod rhagor o gyllid ar gael yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol a gallu'r sector i ymateb i ofynion ehangu pellach.”)

Dyraniadau a naratif cysylltiedig yn nodi'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer 2026-27

- Canran y plant dwy oed sy'n cael cynnig gofal plant Dechrau'n Deg ac sy'n manteisio arno – 12.5 awr fesul awdurdod lleol.
- Cadarnhad bod Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn cynnwys cyllid gofal plant Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy oed.

**Ymateb:**

Fel y nodwyd gennym yn flaenorol ar gyfer y pwyllgor, mae angen cyllid ychwanegol yn 2026-27 i barhau i ehangu rhaglen ehangu gofal plant Dechrau'n Deg.

Mae'r Gyllideb ddrafft hon yn cadw'r dyraniad cyllid presennol ar gyfer rhaglen ehangu gofal plant Dechrau'n Deg yn y Grant Plant a Chymunedau, sy'n defnyddio'r dyraniad ychwanegol ar gyfer gofal plant yng Nghyllideb 2025-26. Mae hyn yn cynnwys:

- £25.055m ar gyfer ehangu Cam 2 (heb ei glustnodi)
- £25.18m ar gyfer ehangu Cam 3 (wedi’i glustnodi)

Mae’r tabl isod yn nodi nifer y plant a gyrhaeddwyd ar bob cam o’r broses o ehangu Dechrau’n Deg.

| Cam Rhaglen Ehangu a Dechrau’n Deg | Cynnig lleoedd gofal plant | Niferoedd gofal plant cronnus a chanran y boblogaeth dwy oed |
|---|---|---|
| **Rhaglen graidd (mae hyn bellach yn cynnwys cam 1 yr ehangiad)** | 9,137* | 9,137 (30%) |
| **Cam 2 yr ehangiad** | 6,528** | 15,665 (51%) |

| | | |
|---|---|---|
| **Cam 3 yr ehangiad** | 4,471 | 20,136 (66%) |

Amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn – mae dadansoddwyr wedi defnyddio'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn diweddaraf sydd ar gael (ar gyfer 2024) – dyma'r amcangyfrif agosaf y gellir ei gyfrifo.

*Ffynhonnell: Ystadegau swyddogol Dechrau'n Deg:
https://statscymru.llyw.cymru/v/QTad

**Ffynhonnell: Nifer a chanran y plant sy'n cael cynnig gofal plant Dechrau'n Deg Cam 2, yn ôl awdurdod lleol

**3.7 Dechrau'n Deg**

Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: Dechrau'n Deg (y pedair hawl).

Dyraniadau a naratif ategol yn nodi'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer 2026-27 (refeniw a chyfalaf).

**Ymateb:**

Mae Dechrau'n Deg yn cael ei ariannu drwy'r Grant Plant a Chymunedau sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghenion cymorth y babanod, y plant, y bobl ifanc a'r oedolion mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas drwy amrywiaeth o ddulliau ymyrraeth gynnar, atal, a chefnogi.

Nod y rhaglenni yw lliniaru neu ddileu anfanteision pobl agored i niwed i'w galluogi i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd ag eraill, a chyfrannu drwy hynny at Gymru sy'n fwy cyfartal. Dyraniad y Grant Plant a Chymunedau ar gyfer 2026-27 yw £222.278 miliwn sy'n ariannu wyth rhaglen gysylltiedig a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys £25.181 miliwn o gyllid wedi'i glustnodi ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar drwy Dechrau'n Deg (Cam 3).

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn Dechrau'n Deg, sy'n cynnwys pedair elfen graidd – gofal plant o ansawdd wedi'i ariannu'n llawn, cymorth magu plant, cymorth dwys i ymwelwyr iechyd, a chymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu. Fe wnaethom ragori ar ein targed cyflawni yn 2023-24, gan sicrhau bod y rhaglen yn rhoi cymorth i fwy na 41,000 o blant a theuluoedd.

Rydym newydd ddechrau ar werthusiad tair blynedd o’r rhaglen Dechrau’n Deg, sy’n cynnwys gwerthusiad effaith o Dechrau’n Deg. Rydym hefyd yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gyflwyno data Dechrau’n Deg ar lefel unigol i’r gronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ac rydym yn bwriadu defnyddio hyn ar gyfer y dadansoddiad effaith. Rydym yn bwriadu dangos canlyniadau tymor hir y rhaglen Dechrau’n Deg i helpu’r rheini yn ardaloedd o'r amddifadedd uchaf yng Nghymru.

**Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar**

Mae’r rhaglen gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn parhau yn 2025-26 a bydd yn gweithredu fel rhaglen a ariennir am dair blynedd tan fis Mawrth 2028 gyda chyfanswm cyllideb o £75 miliwn. Ei nod yw gwella ac ehangu darpariaethau gofal plant newydd a phresennol, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Nid yw’r meini prawf ariannu wedi newid ac maen nhw’n cefnogi rhaglenni gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Yn y rownd tair blynedd flaenorol (2022-25), dyfarnodd y rhaglen £26.7 miliwn i gefnogi 53 o brosiectau gofal plant. O hyn, dyrannwyd £26 miliwn i awdurdodau lleol i gefnogi 51 o ddarpariaethau Dechrau'n Deg.

## 4. Gofal cymdeithasol i blant

### 4.1 Gweithlu Gofal Cymdeithasol i Blant

Unrhyw ddyraniadau sy’n gysylltiedig â chymorth ychwanegol i awdurdodau lleol i fynd i’r afael ag ansefydlogrwydd y gweithlu ym maes gofal cymdeithasol plant, fel cyfraddau swyddi gwag a defnyddio staff asiantaeth.

**Ymateb:**

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r sylfeini ar gyfer gweithlu gofal cymdeithasol cynaliadwy a phroffesiynol, gyda buddsoddiad sylweddol o tua £28 miliwn drwy Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyn yn helpu Gofal Cymdeithasol Cymru i arwain y gwaith o recriwtio, cadw a datblygu'r gweithlu, er mwyn annog a thynnu sylw at y cyfleoedd i ofal cymdeithasol gael ei ystyried yn yrfa am oes, gydag amrywiaeth o gyfleoedd i gamu ymlaen.

Mae mentrau allweddol sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol i blant yn cynnwys buddsoddi yn y canlynol:

- Cynnal ein hymrwymiad i gynyddu'r fwrsariaeth i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol gan ddarparu £1.4 miliwn bob blwyddyn, gan wneud y radd yn fwy hygyrch yn ariannol ac yn ddeniadol i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol newydd.
- Mae Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP), sy'n werth £10.9 miliwn, yn ariannu mentrau hyfforddi awdurdodau lleol fel y cynllun 'Tyfu'ch Bwyd eich Hunan' llwyddiannus. Mae cyfranogiad yn parhau i dyfu o flwyddyn i flwyddyn, ac rydym yn ystyried sut y gallwn adeiladu ar y cyfleoedd hyn.
- Rydym wedi parhau â'n hymrwymiad i ddarparu £45 miliwn drwy'r Grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i bob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae'r cyllid rheolaidd hwn i awdurdodau lleol yn cefnogi codiadau cyflog a mesurau eraill i gryfhau'r gwasanaethau a ddarperir ac i ateb y galw cynyddol.
- Rydym yn parhau i ddarparu cyllid drwy'r grant cynnal refeniw llywodraeth leol i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol, y mae gweithwyr gofal plant yn gymwys i'w gael.

Er y bydd yn cymryd amser i deimlo'r effaith lawn yn y sector, mae'r rhaglenni hyn yn gam addawol ymlaen ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol plant yng Nghymru ac rydym yn bwriadu cynnal lefel debyg o fuddsoddiad yn 2026-27.

### 4.2 Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

Y sefyllfa ddiweddaraf o ran y Cynllun a dadansoddiad o'r holl grantiau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc os oes dyraniadau wedi cael eu gwneud yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27.

**Ymateb:**

Bydd holl brosiectau presennol y Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026. Byddant yn cael eu disodli gan amrywiaeth o grantiau unigol sydd â'r bwriad o fod yn ystwyth ac yn ymatebol i flaenoriaethau polisi gofal cymdeithasol presennol Llywodraeth Cymru. Mae arweinwyr polisi yn trafod y trefniadau â phartneriaid yn y trydydd sector.

Y flaenoriaeth gyffredinol yw bod grantiau'n gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr, yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i bobl sydd angen gofal a chymorth (neu gymorth) sydd yn:

- Bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Gofalwyr y mae arnynt angen cymorth

- Plant a phobl ifanc
- Pobl anabl (gan gynnwys amhariadau corfforol ac amhariadau ar y synhwyrau)
- Pobl Niwroamrywiol/Niwrowahanol
- Pobl hŷn
- Pobl ag anabledd dysgu

Yr hyn fydd yn cael blaenoriaeth yw ymyrraeth gynnar ac atal; bodloni anghenion gofal a chymorth (neu gymorth); a chymorth i Lywodraeth Cymru wrth gyflawni ei swyddogaethau polisi gofal cymdeithasol.

Cyfanswm gwerth y cyllid drwy'r Cynllun Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn 2025-26 oedd £9,301,738, ac mae £2,912,429 ohono'n targedu anghenion plant a phobl ifanc. Er bod y trefniadau disodli yn dal i gael eu datblygu, ein bwriad yw y bydd y grantiau newydd yn gyffredinol yn cynnal lefelau buddsoddi tebyg i 2025-26.

### 4.3 Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o Ofal

Sefyllfa ddiweddaraf Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o Ofal, ac a yw'r Gronfa wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn gyfredol.

**Ymateb:**

Cafodd Cronfa Newid Plant sy'n Derbyn Gofal ei chreu yn 2021 o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed weddilliol. Cafodd ei dylunio i gefnogi agenda Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Mae rhagor o fanylion am y meysydd a gefnogwyd rhwng 2022 a 2026 wedi'u nodi isod.

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno Eiriolaeth Rhieni | £88,400 | £506,000 | £506,000 | £506,000 | **£1,606,400** |
| Cynigion am Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | £340,042 | £638,639 | £669,492 | | **£1,648,173** |
| Cyllid Ychwanegol i Maethu Cymru | £181,048 | £1,890,829 | £2,074,999 | £199,756 | **£4,346,632** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiect Camu i Fyny a Chamu i Lawr y Rhwydwaith Maethu | | £263,300 | £301,300 | £314,800 | **£879,400** |
| Prosiect Llesiant Maethu | £225,129 | £284,170 | £269,062 | £272,753 | **£1,051,114** |
| **Cyfanswm Cost** | **£834,619** | **£3,682,938** | **£3,920,853** | **£1,293,309** | **£9,731,719** |

Bydd y gronfa'n parhau yn 2026-27 gyda chyllid dangosol o £1.7m. Ffigur bras yw hwn oherwydd mae'r gronfa'n cael ei chefnogi gan ad-daliadau o fuddsoddiadau blaenorol a wnaed gan y Gronfa Buddsoddi i Arbed, ac felly gallai newid.

## 5. Iechyd Plant

Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 a'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid ar gyfer:

### 5.1 Mynd i'r afael ag amseroedd aros pediatrig y GIG

**Ymateb:**

Mae £120m ychwanegol wedi cael ei ddyrannu ar gyfer 2025-26 i ddileu'r holl amseroedd aros hir dros ddwy flynedd ar gyfer llwybrau Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth (RTT) erbyn mis Mawrth 2026, ac mae hyn yn cynnwys pediatreg.

Rydym eisoes wedi gweld gwelliant sylweddol, oherwydd y buddsoddiad o £50m yng nghynlluniau byrddau iechyd, a wnaed ym mis Hydref 2024 i leihau amseroedd aros mwy na dwy flynedd a chynyddu apwyntiadau, profion a thriniaethau. Ddiwedd mis Hydref 2024, roedd 1,149 o lwybrau RTT pediatrig a oedd yn aros mwy na dwy flynedd. Ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd hyn wedi gostwng i 639 o lwybrau RTT pediatrig a oedd yn aros mwy na dwy flynedd oherwydd y buddsoddiad hwn a chamau eraill a gymerwyd gan fyrddau iechyd.

Gwelwyd gwelliant pellach yn sefyllfa chwarter un ddiwedd mis Mehefin 2025 gyda nifer y llwybrau pediatrig sy'n aros mwy na dwy flynedd yn gostwng i 592.

Ym mis Gorffennaf 2025 (y ffigurau diweddaraf a oedd ar gael adeg llunio'r papur tystiolaeth hwn), roedd chwe deg pedwar y cant o'r amseroedd aros mwy na dwy flynedd ar draws dau arbenigedd – Clust, Trwyn a Gwddf ac Orthodonteg – ac mae'r ddau yn lleihau. Mae pob arhosiad hir am orthodonteg mewn un bwrdd iechyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sydd â chynllun i glirio'r rhain ac adeiladu gwasanaeth orthodonteg mwy cynaliadwy ar draws gogledd Cymru.

Mae'r rhwydwaith pediatrig wedi nodi amseroedd aros pediatrig fel blaenoriaeth ar gyfer ei gynlluniau. Mae wedi dechrau gweithio gyda'r arweinwyr clinigol o'r rhaglen gofal wedi'i gynllunio i gynyddu'r ffocws ar lwybrau pediatrig. Maen nhw'n gweithio i sicrhau bod llwybrau clinigol pediatrig yn rhan o'r fframweithiau optimeiddio cenedlaethol i feithrin cynaliadwyedd a chysondeb wrth ddarparu llwybrau i blant.

Rhoddir ystyriaeth i gronfeydd trawsnewid gofal wedi'i gynllunio presennol sy'n parhau i 2026-27 a byddai hyn yn caniatáu gwreiddio llwybrau plant yn y cynlluniau optimeiddio gofal wedi'i gynllunio arbenigol, er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy.

**5.2 Gwella iechyd deintyddol plant.**

**Ymateb:**

Mae iechyd y geg ar gyfer plant yn flaenoriaeth graidd i iechyd y cyhoedd yng Nghymru, ac mae cyfres o fentrau presennol a pharhaus wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar atal, mynediad a thegwch. Wrth galon hyn mae'r rhaglen Cynllun Gwên (D2S) a gydnabyddir yn genedlaethol, sy'n parhau i gyflawni gostyngiadau mesuradwy mewn pydredd dannedd drwy ymyriadau cymunedol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae D2S yn blaenoriaethu addysg iechyd y geg, brwsio dannedd dan oruchwyliaeth, a defnyddio farnais fflworid, gan dargedu ysgolion a meithrinfeydd yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf, fel y nodir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae'n seiliedig ar ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth – sydd wedi gweld adnoddau'n symud o selio rhychau i farnais fflworid – ac sydd wedi cael ei lywio gan astudiaethau costeffeithiolrwydd a gwerthuso parhaus (WHC/2017/23). Gyda chyllideb flynyddol o £4 miliwn, a gynhelir ar gyfer 2026-27, mae D2S yn cefnogi brwsio dan oruchwyliaeth, defnyddio fflworid, a dosbarthu pecynnau gofal cartref ar draws GIG Cymru.

Mae D2S yn cael ei ddarparu gan fodel gweithlu integredig llwyddiannus, sy'n defnyddio cymysgedd o sgiliau gweithwyr deintyddol proffesiynol a gweithwyr iechyd nad ydynt yn ddeintyddol, gan wella cyrhaeddiad ac effeithiolrwydd mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Mae hefyd yn cynnwys rhieni, addysgwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol, gan gyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol (Darparu Gwell Iechyd y Geg) i wreiddio iechyd y geg mewn ymdrechion llesiant ehangach.

Darperir gwaith llywodraethu a gwerthuso gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cael ei ariannu i ddarparu monitro cadarn, gan gyfuno data meintiol ac ansoddol i sicrhau atebolrwydd a gwelliant parhaus, a chyhoeddi adroddiad gwerthuso blynyddol. Ar adeg ysgrifennu'r dystiolaeth hon, mae'r adroddiad ar gyfer blwyddyn academaidd 2024-25 yn mynd drwy'r camau terfynol ar gyfer ei gyhoeddi ar hyn o bryd. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddarparu i'r pwyllgor ar wahân pan fydd ar gael. Mae adroddiad 2023-24 ar gael yma: Adroddiad Blynyddol Cynllun Gwên 2023-2024 - Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol Cymru yn mesur maint, difrifoldeb ac effaith clefydau deintyddol ar blant blwyddyn 1 (pump oed), plant blwyddyn 7 (12 oed) a grwpiau o oedolion sy'n byw ledled Cymru.

Mae hyn yn ein helpu i bennu statws iechyd y geg a llesiant presennol y boblogaeth, ac yn disgrifio anghydraddoldebau ar draws cwrs bywyd. Mae hefyd yn ein helpu i ddeall effaith iechyd y geg gwael ar iechyd a llesiant cyffredinol ac yn ein galluogi i hysbysu sut gall GIG Cymru gynllunio a darparu gwasanaethau deintyddol yn well yn y dyfodol i fodloni'r anghenion hyn.

Cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf ar blant pump oed ym mis Ionawr 2024. Dyma’r canfyddiadau:

- Cyffredinrwydd – mae canran y plant sy'n cael eu harchwilio sydd â dannedd wedi pydru, sydd ar goll neu sydd wedi eu llenwi wedi gostwng un rhan o dair o 47.6% yn 2007-08 i 32.4% yn 2022-23.
- Difrifoldeb – nifer cyfartalog y dannedd fesul plentyn sydd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi – wedi gostwng 44% o 1.98 yn 2007-08 i 1.11 yn 2022-23.
- Ardaloedd o anghydraddoldeb – mae nifer yr achosion o ddannedd sydd wedi pydru, sydd ar goll neu sydd wedi'u llenwi yn uwch yn yr ardaloedd o amddifadedd uchaf. Cyfradd yr achosion yn yr ardaloedd o amddifadedd uchaf yw 43.4% (i lawr o 57.6% yn 2007-08) o'i gymharu â 20.7% (i lawr o 34.5% yn 2007-08) yn yr ardaloedd o amddifadedd lleiaf.

Cyhoeddwyd yr arolwg diweddaraf o blant 12 oed ym mis Ionawr 2025. Dyma’r canfyddiadau:

- Cyffredinrwydd – mae canran y plant sy'n cael eu harchwilio sydd â dannedd wedi pydru, sydd ar goll neu sydd wedi eu llenwi wedi gostwng 40% o 42.5% yn 2008-09 i 25.3% yn 2023-24.
- Difrifoldeb – nifer cyfartalog y dannedd fesul plentyn sydd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi – wedi gostwng 50% o 0.98 yn 2008-09 i 0.5 yn 2023-24.
- Ardaloedd o anghydraddoldeb – mae nifer yr achosion o ddannedd sydd wedi pydru, sydd ar goll neu sydd wedi'u llenwi yn uwch yn yr ardaloedd o amddifadedd uchaf. Cyfradd yr achosion yn yr ardaloedd o amddifadedd uchaf yw 32.5% (i lawr o 52.4% yn 2008-09) o'i gymharu â 19% (i lawr o 30.53% yn 2008-09) yn yr ardaloedd o amddifadedd lleiaf.

Mae'r ddau arolwg yn cadarnhau bod nifer yr achosion o bydredd dannedd ymysg plant wedi lleihau'n sylweddol ers 2008 ond mae gwaith i'w wneud o hyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd y geg a'r bwlch rhwng iechyd y geg ymysg plant o'r teuluoedd o amddifadedd uchaf a lleiaf yng Nghymru.

Mae gwella iechyd y geg yn cael ei arwain gan bolisi cyfredol a diwygio contractau deintyddiaeth y GIG. Mae contract gwasanaethau deintyddol cyffredinol newydd wedi cael ei negodi a’i gyhoeddi (i’w lansio fis Ebrill 2026) a fydd yn cymell

ymgysylltu cynnar drwy gynnig taliadau uwch i bractisau sy'n gweld dechrau gweld plant pan fyddant yn fabanod.

Ar hyn o bryd mae canolfan dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ymchwilio i'r rhwystrau i fynediad at ofal sylfaenol i blant – gan gynnwys gwasanaethau deintyddol – i hysbysu polisi yn y dyfodol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cael eu gofal deintyddol gan y gwasanaeth deintyddol cyffredinol (GDS). Mae'r tabl isod yn dangos y buddsoddiad mewn deintyddiaeth ers 2018, sydd wedi cynyddu'n flynyddol. Nid yw cyllideb 2025-26 y GDS wedi'i chwblhau eto oherwydd oedi cyn dechrau trafodaethau cyflog gyda chynrychiolwyr y proffesiwn deintyddol. Rydym yn disgwyl i fuddsoddiad gael ei wneud eleni a fyddai wedyn yn gosod y gyllideb dros dro ar gyfer 2026-27.

| Blwyddyn | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid deintyddol cyffredinol (£m) | 140.278 | 142.184 | 146.282 | 150.947 | 158.538 | 167.298 | 177.732 |

O ran gweithgarwch, cafodd ychydig o dan hanner (48.5%) o blant Cymru ofal a thriniaeth gan y GDS yn 2024-25. Mae hyn yn cyfateb i tua 29% o'r holl gleifion a welwyd.

O safbwynt strategol, mae Cymru'n datblygu model sy'n canolbwyntio ar degwch ac sy'n cael ei arwain gan atal, ar gyfer iechyd y geg plant. Bydd buddsoddiad parhaus, cydweithio ar draws sectorau, a pholisi sy'n seiliedig ar ddata yn hanfodol i fynd i'r afael â gwahaniaethau parhaus.

Mae cyfleoedd ar gyfer effaith bellach yn cynnwys ehangu allgymorth mewn meysydd sydd â chyfraddau presenoldeb a brwsio isel, yn ogystal ag ymgorffori iechyd y geg yn ddyfnach mewn cwricwla iechyd a llesiant yn yr ysgol.

**5.3 Strategaeth gordewdra, gan gynnwys tystiolaeth o ddull cydlynol, trawslywodraethol o fynd i'r afael â phenderfynyddion gordewdra.**

**Ymateb:**

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein strategaeth *Pwysau Iach: Cymru Iach* i fynd i'r afael â gorbwysau a gordewdra. Mae cynllun cyflawni newydd ar gyfer 2025-27 wedi cael ei gyhoeddi gyda ffocws clir ar gymorth i blant a phobl ifanc.

Mae'r dyraniad ar gyfer 2026-27 yn parhau i fod yn £4.042m a bydd yn darparu cyllid parhaus ar gyfer rhaglenni a gweithgareddau cymorth allweddol, fel ein cynlluniau peilot plant a theuluoedd, a gwaith dull system gyfan ar draws pob ardal bwrdd iechyd. Mae'r cynlluniau peilot (gyda'r brand PIPYN) wedi'u sefydlu yng Nghaerdydd, Merthyr ac Ynys Môn, ac maen nhw'n cynnwys "ymyriad nyth" sy'n darparu cymorth un-i-un i deuluoedd â phlant ifanc, rhwng tair a saith mlwydd oed, sy'n ordew. Gall teuluoedd hefyd gymryd rhan mewn digwyddiadau lleol am ddim, sy'n cael eu cynnal mewn partneriaeth â thîm PIPYN, i fod yn egnïol a dysgu am fwyta'n iach.

Mae'r rhaglen yn rhan o ddull systemau ehangach i ddarparu lleoliadau ac amgylcheddau iachach i blant ifanc a'u teuluoedd. Mae timau dull gweithredu system gyfan ym mhob bwrdd iechyd, dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn gwreiddio dull gweithredu traws-sector ar lefel ranbarthol i alluogi canlyniadau cynaliadwy tymor hir.

**5.4 Gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys**:

- Gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed
- Cymorth iechyd meddwl brys gan gynnwys GIG Cymru 111 Dewis 2 a datblygu hybiau iechyd meddwl/gwasanaethau noddfa
- Gwasanaethau i gefnogi iechyd meddwl amenedigol a pherthnasoedd rhwng rhieni a babanod
- Gwasanaethau anhwylderau bwyta

**Ymateb:**

Rydym yn parhau i glustnodi cyllid iechyd meddwl ar gyfer y GIG a bydd dros £840m ar gyfer 2026-27, gan gynnal ein buddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl, ac nid yw ein cynlluniau ar gyfer gwariant wedi newid.

Nid ydym yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol i ddyraniadau gwasanaethau yn 2026-27, ond byddwn yn prif ffrydio cyllid i fyrddau iechyd mewn perthynas â gwasanaethau fel 111 Dewis 2, sy'n cael ei gynnal yn genedlaethol ar hyn o bryd. Mae hyn yn gam tuag at wneud y gwaith hwn yn fusnes fel arfer.

Cyhoeddwyd y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant a'i chynllun cyflawni cysylltiedig ym mis Ebrill ac mae'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, atal a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio at y math

mwyaf priodol o gymorth, ar yr adeg iawn ac yn ddi-oed. Mae'r strategaeth yn nodi ein hymrwymiad i ddatblygu gwasanaethau mynediad agored yr un diwrnod er mwyn i bawb allu cael y cymorth cywir sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt. Mae'r Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl (SPMH), sy'n rhan o Perfformiad a Gwella'r GIG, wedi paratoi canllawiau i fyrddau iechyd sy'n nodi disgwyliadau clir ar gyfer gweddill y flwyddyn, ac a fydd yn darparu'r sylfeini sydd eu hangen arnom ar gyfer newid mor drawsnewidiol.

Rydym yn parhau i fuddsoddi £2.2m y flwyddyn yn Perfformiad a Gwella'r GIG ar gyfer y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl sy'n darparu adnodd pwrpasol i GIG Cymru i sbarduno gwelliannau mewn perfformiad, ansawdd a diogelwch. Mae'r rhaglen wedi datblygu manyleb iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), a fydd yn sicrhau cysondeb yn y gwasanaeth a gynigir. Drwy ganolbwyntio ar berfformiad CAMHS, rydym bellach yn gweld gwelliannau mewn amseroedd aros.

Rydym yn parhau i gefnogi nifer o 'gynlluniau peilot noddfa' – roedd y rhain yn wreiddiol yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Maen nhw'n edrych ar wahanol ffyrdd o ddarparu cymorth iechyd meddwl i bobl ifanc mewn argyfwng. Maen nhw'n cael eu gwerthuso a byddant yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Fel rhan o'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant, rydym yn parhau i gefnogi iechyd meddwl a llesiant rhieni a babanod, ac rydym yn bwriadu cryfhau hyn, os oes modd. Mae perthnasoedd rhwng rhieni a babanod yn bwysig o ran diogelu a chefnogi iechyd meddwl, ac mae angen iddynt gael eu cefnogi gan ddulliau ehangach ar draws Llywodraeth Cymru, er enghraifft drwy ganolbwyntio ar y 1,000 diwrnod cyntaf a Teuluoedd yn Gyntaf, yn hytrach na drwy ddull gofal iechyd yn unig. Byddwn yn parhau i weithio ar draws y llywodraeth i gefnogi hyn.

Rydym yn disgwyl i bob bwrdd iechyd ddarparu cymorth arbenigol, amlddisgyblaethol i bobl ag anhwylderau bwyta ac mae byrddau iechyd yn parhau i wneud cynnydd at gyrraedd safonau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta, ymyrryd yn gynharach a sicrhau nad oes neb yn aros mwy na phedair wythnos am asesiad. Dim ond un elfen o'n dull gweithredu ehangach yw canolbwyntio ar wasanaethau arbenigol. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn amrywiaeth o gymorth haen 0/1 i ddarparu mynediad cynnar at gymorth a chyngor – mae hyn yn cynnwys ein buddsoddiad parhaus yng ngwasanaethau a llinell gymorth Beat Cymru.

Mae gwaith yn mynd rhagddo rhwng Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, GIG Cymru a Beat i adolygu tirwedd gwasanaethau anhwylderau bwyta ledled Cymru. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i fodelu ac asesu'r capasiti a'r galw ledled Cymru.

### 5.5 Atal hunanladdiad fel y bo'n berthnasol i blant a phobl ifanc

**Ymateb:**

Roeddem wedi defnyddio dull gweithredu pob oed i ddatblygu'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio 10 mlynedd newydd, i sicrhau bod gennym system a fydd yn cefnogi pawb, a'i bod yn hybu gwell integreiddio ar draws cymorth.

Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni cysylltiedig a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025. Mae'n nodi bod angen i'n gwasanaethau gael eu harwain gan anghenion a chanolbwyntio ar yr unigolyn, yn hytrach na chael eu harwain gan oedran. Fodd bynnag, mae'r strategaeth yn tynnu sylw at faterion penodol sy'n wynebu plant a phobl ifanc ac mae'r cynllun cyflawni'n cynnwys camau gweithredu penodol a fydd yn bodloni eu hanghenion. Er enghraifft, gweithio gydag arbenigwyr diogelwch ar-lein i ddarparu adnoddau ar gyfer Hwb i helpu athrawon a theuluoedd i drafod cynnwys niweidiol ar-lein gyda phlant a phobl ifanc ac i nodi gwasanaethau cymorth ac adrodd.

### 5.6 Gwasanaethau niwroddatblygiadol

**Ymateb:**

Mae Cynllun y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth (NDIP) yn nodi'r bwriadau a'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer plant ac oedolion.

Ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant estyniad dwy flynedd i'r Rhaglen hyd at fis Mawrth 2027, yn ogystal â £13.7m yn ychwanegol. Yn 2025-26, y flaenoriaeth gyffredinol yw lleihau amseroedd aros hir ar gyfer asesiadau plant, tra bo gwaith y rhaglen yn parhau i drawsnewid gwasanaethau.

Mae'r ffocws ar leihau amseroedd aros hir ar gyfer asesiadau plant yn 2025-26 yn adeiladu ar ddyraniad o £3m i fyrddau iechyd yn ystod gaeaf/gwanwyn 2024-25 i ddileu amseroedd aros pedair blynedd ar gyfer asesiadau niwroddatblygiadol plant. Roedd dros 2,100 o asesiadau ychwanegol wedi'u cynnal erbyn mis Mawrth 2025.

Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant fod £5.6m o'r dyraniad cyllid NDIP o £13.7m yn cael ei ailgyfeirio i ganolbwyntio ar leihau amseroedd aros am asesiadau niwroddatblygiadol i blant, gan osod targed i ddileu pob arhosiad tair blynedd ledled Cymru erbyn mis Mawrth 2026. Mae Perfformiad a Gwella'r GIG yn gweithio'n agos gyda byrddau iechyd, gyda'r byrddau'n cyflwyno data misol ar amseroedd aros plant. Mae byrddau iechyd wedi cyflwyno eu

cynlluniau cyflawni ac mae'r dyraniad cyllid fesul bwrdd iechyd wedi cael ei ailgadarnhau. Mae rhai byrddau iechyd eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol i drawsnewid llwybrau asesu ac mae ganddynt amseroedd aros is o ganlyniad.

Bydd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol yn cynnal cynllun peilot gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i archwilio a phrofi'r defnydd o adnodd ysgrifennu AI o'r enw Magic Notes. Mae Magic Notes yn cofnodi asesiad mewn amser real a gall ddefnyddio adroddiadau sydd eisoes yn bodoli i ddarparu asesiad manwl ac ychwanegu arbedion effeithlonrwydd at y broses, ochr yn ochr â gweld mwy o blant. Adroddir ar y cam peilot hwn yn hydref 2025.

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer darparu gwasanaethau awtistiaeth yn cael ei adolygu a'i ddiwygio. Bydd ymgynghoriad ar God Ymarfer Niwrowahaniaeth newydd yn cael ei gynnal yn ystod haf 2026.

Cynhaliwyd cyfarfod bwrdd crwn ADHD i oedolion ym mis Gorffennaf 2025 gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant gyda chlinigwyr, academyddion ac arweinwyr polisi o bob cwr o'r DU. Mae wedi taflu goleuni ar arloesedd, yr arferion gorau ac ymrwymiad cydweithredol i wella gwasanaethau ADHD i oedolion ledled Cymru. Mae grŵp gorchwyl yn cael ei sefydlu i fwrw ymlaen â 10 argymhelliad, sy'n cynnwys cryfhau protocolau pontio i atal pobl ifanc rhag gorfod ailddechrau atgyfeiriad wrth ymuno â gwasanaethau oedolion, ac ehangu hyfforddiant i feddygon teulu, seiciatryddion a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd i wella eu dealltwriaeth a'u rheolaeth o ADHD.

Mae’r NDIP yn rhan ganolog o’r gwaith o ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy ac integredig. Bydd y Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, a ariennir drwy Lywodraeth Cymru, yn parhau â'i waith yn codi ymwybyddiaeth a derbyniad ar draws y system, darparu amrywiaeth o adnoddau a hyfforddiant, a sbarduno gwelliannau yn y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.

### 5.7 Iechyd y cyhoedd fel y bo’n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys brechu

**Ymateb:**

Mae dau o’r prif feysydd drwy gynllun cyflawni *Pwysau Iach: Cymru Iach* a'r rhaglenni brechu plant.

Mae cynllun cyflawni *Pwysau Iach: Cymru Iach* ar gyfer 2025-27, a gyhoeddwyd ym mis Medi, yn canolbwyntio ar helpu plant a phobl ifanc i fyw bywydau iachach a mwy egnïol i gefnogi eu cyfleoedd mewn bywyd, a gwreiddio arferion iach yn gynnar.

Bydd hyn yn cynnwys defnyddio'r £4.042 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer y cynllun yn 2026-27 ar fabanod a phlant, gan gynnwys adeiladu ar PIPYN. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â theuluoedd a'u cefnogi, a threialu dulliau arloesol mewn ysgolion a chanolfannau hamdden i hybu a galluogi dewisiadau bwyd iachach a ffyrdd mwy egnïol o fyw, yn ogystal â chydweithio â llywodraeth leol i greu amgylcheddau sy'n hwyluso ymddygiad iachach yn well, fel hysbysebu iachach neu leihau amlder cyfleusterau cludfwyd poeth.

Darperir cyllid gan Lywodraeth Cymru i GIG Cymru bob blwyddyn i gefnogi'r gwaith o imiwneiddio plant, gyda chynnydd o un flwyddyn i'r llall yn unol â chwyddiant, ac adnoddau ychwanegol i ymgorffori'r gwaith o ddarparu rhaglenni newydd neu newidiadau i raglenni presennol. Disgwylir i fyrddau iechyd reoli'r arian a ddyrennir iddynt yn effeithlon, gan sicrhau eu bod yn cyrraedd y targedau a nodir yng Nghylchlythyrau Iechyd Cymru ac yn Fframwaith Cynllunio'r GIG. O fis Ionawr 2026 ymlaen, bydd newidiadau i'r amserlen frechu arferol i blant er mwyn cefnogi cyflwyno'r brechiad varicella. Mae hyn yn cynnwys dyraniad ychwanegol o £0.3 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon a £2 filiwn yn 2026-27.

**5.8 Camddefnyddio sylweddau**, **gan gynnwys fepio ymysg plant a phobl ifanc**

**Ymateb:**

Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein hagenda camddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn gyfanswm o fwy na £67m. O hyn mae mwy na £41m yn mynd i Fyrddau Cynllunio Ardal (APB) drwy ein Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau.

Cymorth i blant a theuluoedd yw un o flaenoriaethau ein hagenda Camddefnyddio Sylweddau gan ein bod yn gwybod drwy'r gwaith ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) ei bod yn bosib fod plant sy'n cael eu magu mewn cartrefi lle mae problem gyda defnyddio sylweddau yn fwy tebygol o gael canlyniadau niweidiol yn nes ymlaen yn eu bywydau. Drwy Fyrddau Cynllunio Ardal ein Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau, mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi £6.25m yn flynyddol wedi'i glustnodi ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r Fframwaith yn crynhoi tystiolaeth a'r arferion gorau i arwain y rhai sy'n rhoi cymorth i blant a phobl ifanc sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Rydym hefyd wedi cyhoeddi fersiynau o'r Fframwaith sy'n addas i blant.

<u>Y Gwasanaeth Di-waith</u>

Mae'r Gwasanaeth Di-waith yn cefnogi pobl dros 25 oed sy'n gwella ar ôl camddefnyddio sylweddau a/neu salwch meddwl tuag at gyflogaeth neu waith, neu bobl ifanc 16 i 24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) i gael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Rhwng mis Hydref 2022, pan ddechreuodd y gwasanaeth presennol, a mis Mehefin 2025, mae bron i 2,800 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed wedi cofrestru â'r gwasanaeth. O'r rhain, mae:

- 895 wedi ennill cymhwyster neu dystysgrif sy'n gysylltiedig â gwaith.
- 267 wedi mynd ymlaen i ddysgu pellach.
- 448 wedi cwblhau profiad gwaith neu gyfleoedd gwirfoddoli; a
- 252 wedi cael swyddi.

<u>Fepio</u>

Mae adnoddau i gefnogi rhieni, athrawon, gofalwyr ac eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc oed uwchradd wedi cael eu datblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Os caiff Bil Tybaco a Fêps Llywodraeth y DU ei basio, bydd yn cyfyngu ar y pecynnu lliwgar, yr hysbysebu a'r blasau sy'n apelio at blant a phobl iau. Mae'r Bil yn ei gam olaf yn Nhŷ'r Arglwyddi, ac mae gwaith ar ddatblygu is-ddeddfwriaeth yn y maes hwn wedi'i gynllunio ar gyfer 2026 ymlaen.

Mae ein gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu cenedlaethol, 'Helpa Fi i Stopio', yn cynnig sesiynau untro gyda chynghorwyr ar gyfer plant dros 12 oed i helpu i roi'r gorau i fepio. Mae taith ddigidol ar gael sy'n helpu pobl i greu 'cynllun stopio' ar-lein i'w cefnogi ar eu taith. Rydym yn edrych ar sut gall y gwasanaeth symud o roi'r gorau i dybaco i wasanaeth rhoi'r gorau i nicotin, er mwyn cynnig pecyn cymorth mwy cynhwysfawr i bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau iddi. Ariennir y gwasanaeth gan ddyraniad craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## 6. Costau byw a newidiadau i Yswiriant Gwladol

Sylwadau cyffredinol am effaith costau byw ar y canlynol:

**6.1 Byrddau Iechyd:** darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc gan y Byrddau Iechyd yng Nghymru ac effaith costau cynyddol ynni ar y ddarpariaeth hon.

**Ymateb:**

Yn yr un modd â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, mae pwysau chwyddiant ar gostau heb fod yn gostau staff, gan gynnwys costau ynni wedi bod yn her sylweddol i'r GIG yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys yn 2025-26. Cafodd byrddau iechyd 1.77% o gynnydd yn 2025-26 ar gyfer chwyddiant a thwf yn y galw. Cafodd sefydliadau'r GIG gyllid sylweddol hefyd ar gyfer codiadau cyflog a oedd yn bodloni'r dyfarniadau cyflog ar gyfer staff y GIG yn 2025-26. Byddwn yn cadw cyllid i dalu am godiad cyflog i staff y GIG ar gyfer 2026-27.

Mae'r tîm cynllunio ariannol a chyflawni yn Perfformiad a Gwella'r GIG wedi llunio asesiad o effaith galw a chwyddiant yn 2026-27. Mae amrywiaeth o ffactorau sy'n rheoli costau yn cyfrannu at y modelu hwn, ond bydd pwysau chwyddiant a thwf yn y galw am wasanaethau yn amlwg. Er na allwn ddadgyfuno'r sefyllfa ar gyfer gwasanaethau plant y GIG, mae'n anochel y byddant yn agored i'r un effeithiau a phwysau.

**6.2 Gwasanaethau cymdeithasol**: holl ddarpariaeth gweithgareddau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru ac unrhyw drafodaethau cysylltiedig gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai.

**Ymateb:**

Mae'r rhan fwyaf o gymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau plant yn cael ei ddarparu drwy'r grant cynnal refeniw llywodraeth leol heb ei neilltuo, er bod ffrydiau cyllid grant penodol sylweddol hefyd.

Gwelwyd cynnydd o 4.5% yn y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2025-26, gan gynnwys £8.24m o gyllid i sicrhau terfyn isaf yn y setliad, sef 3.8%. Nid yw setliad terfynol llywodraeth leol ar gyfer 2026-27 wedi'i gwblhau eto. Bydd y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i gefnogi awdurdodau lleol a bydd y setliad terfynol yn hysbys yn ddiweddarach yng nghylch y gyllideb hon.

Mae awdurdodau lleol yn wynebu pwysau chwyddiant a chynnydd sylweddol yn y galw ar draws eu holl swyddogaethau. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar ran llywodraeth leol, yn darparu ei hasesiad o'r pwysau, y blaenoriaethau a'r cyfleoedd i awdurdodau lleol bob blwyddyn i'w trafod gan yr Is-grŵp Cyllid. Bydd awdurdodau lleol hefyd yn ystyried lefel y dreth cyngor y mae pob un yn dymuno ei gosod ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod fel rhan o'u proses gyffredinol o bennu'r gyllideb. Bydd awdurdodau lleol yn pennu eu cyllidebau eu hunain ar gyfer pob gwasanaeth cyn 10 Mawrth 2026. Cyhoeddir manylion gwariant awdurdodau lleol fesul gwasanaeth yn flynyddol. Y duedd dros y blynyddoedd diwethaf o hyd yw bod gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn cael cyfran gynyddol o gyfanswm gwariant refeniw awdurdodau lleol, gyda gwasanaethau cymdeithasol wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn canran o gyfanswm y gwariant dros y pum mlynedd ddiwethaf, o 24.06% i 35.6%.

Mae'r Gweinidogion yn mynd ati'n rheolaidd i drafod pwysau, gan gynnwys mewn perthynas â gofal cymdeithasol, gan gynnwys gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) flynyddol gwerth £146.8 miliwn i gefnogi cydweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gweithio integredig. Mae'r RIF yn canolbwyntio ar ddarparu modelau gofal gyda dros £77 miliwn yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol a chyllid penodol i wasanaethau plant ar gyfer cefnogi teuluoedd a chymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o ofal. Mae'r RIF hefyd yn cefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o ran cynllunio a chomisiynu strategol a chysoni cyllid grant er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posib.

Mae Cronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Cyfalaf (IRCF) Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cefnogi'n uniongyrchol ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i fuddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddarparu cyllid cyfalaf i ddatblygu 50 o ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ledled Cymru, i helpu i hwyluso'r gwaith o ailgydbwyso'r farchnad gofal preswyl ac i ddileu elw o ddarparu gofal preswyl i blant. Hyd yma, mae 18 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan awdurdodau lleol wedi cael cyllid gan y rhaglen, gyda gwerth buddsoddiad o tua £38m.

**6.3 Tlodi plant**: manylion pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda chydweithwyr perthnasol eraill yn y cabinet ynghylch dyraniadau sy'n cael effaith sylweddol ar iechyd a gofal cymdeithasol plant, er enghraifft Ysgrifennydd y Cabinet ar Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip o ran cyllideb Comisiynydd Plant Cymru a materion polisi ehangach, fel tlodi plant.

**Ymateb:**

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael sgyrsiau rheolaidd â chydweithwyr yn y Cabinet ar faterion sy’n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol plant.

Mae'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr yn cael ei chynnal tan fis Mawrth 2026, tra'n aros am benderfyniad i'w hymestyn. Manteisiodd dros 2,000 o ofalwyr ifanc ar y cynllun yn 2024-25 sy'n darparu cymorth ariannol brys i brynu eitemau hanfodol, gan gynnwys bwyd. Mae gofalwyr ifanc yn llai tebygol o fynd ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch, gan effeithio ar eu potensial i ennill cyflog hirdymor. Ar hyn o bryd mae cydweithwyr ym maes addysg yn archwilio sut gellid monitro cyflawniad a llesiant addysgol gofalwyr ifanc mewn ysgolion.

Byddwn yn cyhoeddi Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn 2026, a fydd yn canolbwyntio mwy ar y pwysau ar ofalwyr ifanc a'u canlyniadau personol.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cwrdd yn ddiweddar â chadeiryddion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Chomisiynydd Plant Cymru i drafod darparu cymorth iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd i blant a phobl ifanc; ac arferion gorau. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol flaenoriaethu integreiddio gwasanaethau ar gyfer plant ag anghenion cymhleth ac mae gan bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol is-grŵp plant a phobl ifanc; ac roedd y drafodaeth wedi'i hwyluso yn gyfle i'r Comisiynydd Plant graffu ar y ddarpariaeth a blaenoriaethu meysydd allweddol.

Mae polisïau iechyd a gofal cymdeithasol eraill, fel presgripsiynau am ddim, Cynllun Gwên, Dechrau'n Deg, gofal plant wedi'i ariannu a thalebau Cychwyn Iach – sy'n helpu menywod beichiog a theuluoedd â phlant dan bedair oed i brynu bwyd iach, llaeth a fitaminau – i gyd yn cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi plant.

**6.4 Cyfraniadau Yswiriant Gwladol:** diweddariad i'r wybodaeth a ddarparwyd ar dudalennau 10 ac 11 eich ymateb i'n hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2025-26. I gynnwys sut mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn adlewyrchu newidiadau yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr a'ch asesiad o effaith hyn ar ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal i blant a phobl ifanc.

**Ymateb:**

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yng Nghyllideb yr Hydref 2024. Dywedodd y byddai'n darparu cyllid i dalu

am y cynnydd i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, yn dilyn hynny cafodd Cymru gyllid canlyniadol Barnett o'r costau ychwanegol i gyflogwyr datganoledig yn y sector cyhoeddus yn Lloegr, yn hytrach na'r costau gwirioneddol.

Rhoddodd Llywodraeth y DU £184m o gyllid rheolaidd i Gymru, o'i gymharu â'r gost o £257m. Darparodd Llywodraeth Cymru £36m o gronfeydd wrth gefn yn 2025-26 at gostau cyfraniadau Yswiriant Gwladol ychwanegol cyflogwyr. Felly, mae £220m o gyllid llinell sylfaen ychwanegol wedi cael ei ddarparu i dalu am y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Bydd holl gyflogwyr y sector cyhoeddus yn cael tua 85% o'r amcangyfrif o gynnydd mewn costau Yswiriant Gwladol y maen nhw'n eu hwynebu yn 2025-26.

Y dyraniad i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol oedd £98.5m a phennwyd bod yr elfen hon o'r gyllideb yn rheolaidd ar gyfer 2026-27. Amcangyfrifir bod effaith y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y GIG, ac ar draws y Prif Grŵp Gwariant, yn tua £115m, felly mae yna bwysau cyllideb o £16m sy'n effeithio ar y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Er na allwn wahanu'r sefyllfa ar gyfer plant a'r gwasanaethau y mae'r GIG yn eu darparu, mae'n anochel y byddant yn wynebu'r effeithiau hyn.

Mae'r dull gweithredu y mae Llywodraeth y DU wedi'i fabwysiadu yn golygu bod gennym ddiffyg sylweddol. Mae Gweinidogion Cymru wedi herio'r penderfyniad hwn dro ar ôl tro, gan ddadlau y dylid ariannu'r costau'n llawn.

## 7. Costau deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r portffolio.

### 7.1 Costau gweithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 fel y bo'n berthnasol i blant a phobl ifanc

**Ymateb:**

Mae'r holl gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â phlant a phobl ifanc sy'n deillio o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 yn ymwneud â gweithredu'r ymrwymiadau dileu elw. Disgrifiwyd y costau disgwyliedig yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf gyda'r ymrwymiadau cyllidebol penodol ar gyfer 2026-27 wedi'u nodi uchod, yn yr adran Rhaglen Lywodraethu (adran 3).

### 7.2 Goblygiadau ariannol neu'r rhai a ragwelir ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth fel y bo'n berthnasol i blant a phobl ifanc yn y portffolio Iechyd a Gofal cymdeithasol.

**Ymateb:**

Bydd goblygiadau ariannol posib diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 – fel y cynigir yn yr ymgynghoriad ar ddileu elw o ofal plant o 1 Ebrill 2026 ymlaen – yn cael eu hystyried yn yr asesiadau effaith rheoleiddiol sydd i'w paratoi ar gyfer pob set o reoliadau diwygio. Disgwylir i'r rhain gael eu cwblhau erbyn dechrau 2026 ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Bydd yr is-ddeddfwriaeth sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, sy'n ymwneud â mabwysiadu, maethu, gofal gan berthynas, a rhianta corfforaethol, yn cael ei chefnogi gan Asesiadau Effaith Rheoleiddiol (RIA). Bydd y rhain yn gwerthuso goblygiadau'r newidiadau arfaethedig ac mae asesiadau cychwynnol yn awgrymu mai bach iawn fydd unrhyw gostau cysylltiedig. Bydd yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol terfynol yn cael eu cwblhau erbyn dechrau 2026, yn dilyn adolygiad trylwyr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

### 7.3 Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd y DU, gan gynnwys Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol cysylltiedig Llywodraeth Cymru ynghylch y Bil Llesiant Plant ac Ysgolion.

**Ymateb:**

Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Llesiant Plant ac Ysgolion yn amlinellu'r cydsyniad deddfwriaethol penodol y gofynnwyd amdano gan Senedd Cymru oherwydd effaith bosib y Bil ar feysydd datganoledig, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn egluro sut mae cymalau'r Bil ynghylch cam-drin plant mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, nad ydynt ar hyn o bryd yn dod o dan droseddau presennol yng Nghymru, yn golygu bod angen caniatâd iddynt fod yn berthnasol.

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â'r cymalau hyn, naill ai i Lywodraeth Cymru nac i awdurdodau lleol ac eithrio mewn perthynas â chostau gweinyddu.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4.1

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

11 Tachwedd 2025

Annwyl Buffy

**Data ar ddysgwyr mewn ysgolion arbennig sydd â darpariaeth ADY/AAA**

Yn dilyn cyfarfod diweddar y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i ddarparu data ar nifer y disgyblion mewn ysgolion arbennig sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

Ym mis Ionawr 2025, cofnododd cyfrifiad CYBLD y data ADY / AAA canlynol ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion arbennig:

- Roedd gan **3,590 o ddysgwyr CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol**
- Roedd **gan 1,570 o ddysgwyr CDU a gynhelir gan yr ysgol**
- Roedd **1,150 o ddysgwyr** yn derbyn **darpariaeth AAA,** ac roedd gan **1,103** ohonynt **ddatganiad AAA**.

Sylwch ar y eithriad canlynol o'r ffigurau hyn:

- Nid yw **Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD)** wedi'u cynnwys

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 4.2

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for ClimateChange and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID-PO-575-25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

11 Tachwedd 2025

Annwyl Mike

Ysgrifennaf i'ch hysbysu bod yr Ysgrifenyddiaeth Cysylltiadau Rhynglywodraethol Annibynnol bellach wedi cyhoeddi ei hadroddiadau blynyddol sy'n cwmpasu'r cyfnodau 2022–2023 a 2023–2024. Mae'r adroddiadau hyn wedi'u paratoi gan ddefnyddio gwybodaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol mewn dogfennau ategol, sef hysbysiadau ac adroddiadau tryloywder chwarterol sydd wedi'u cyhoeddi ar dudalennau gwe gov.uk. Gan fod y rhain yn adroddiadau annibynnol, rydym wedi'u hadolygu ar sail cywirdeb ffeithiol yn unig. Gellir gweld yr adroddiadau hyn yma.

Fel yr hysbyswyd yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi ei hadroddiadau trosolwg ar gysylltiadau rhynglywodraethol ei hun, sy'n cwmpasu'r un cyfnodau, yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol a osodwyd gerbron y Senedd ar 18 Tachwedd 2021. Gellir gweld yr adroddiadau hyn yma.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd a ganlyn: Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol; Economi, Masnach a Materion Gwledig; Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; Cyllid; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; a Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 4.3

**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf/Our Ref: PO/JMHSC/0581/25

Buffy Williams AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
SeneddPlant@senedd.cymru

12 Tachwedd 2025

Annwyl Buffy,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 28 Hydref, lle gwnaethoch ofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu Datganiad Ansawdd Integredig ar gyfer Iechyd Plant.

Fel yr amlinellais yn fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, bydd y Datganiad Ansawdd yn nodi ein disgwyliadau clir i fyrddau iechyd ddarparu gwasanaethau iechyd teg, effeithiol ac o ansawdd uchel i blant yng Nghymru.

Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Clinigol Strategol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Plant i gydgynhyrchu Datganiad Ansawdd drafft, a fydd yn cael ei rannu â rhanddeiliaid allweddol i'w ystyried yn fanwl yn gynnar yn 2026. Bydd y dull cydweithredol hwn yn sicrhau bod y Datganiad Ansawdd yn adlewyrchu'r heriau a'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu gwasanaethau ac yn cefnogi dealltwriaeth gyffredin o'r newidiadau sydd eu hangen yn y dyfodol.

Rwy'n rhag-weld y bydd y Datganiad Ansawdd Integredig terfynol ar gyfer Iechyd Plant yn cael ei gyhoeddi yn ystod mis Mawrth 2026.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 4.4

**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein rhif/Our ref: SM/PPIA11/25

Buffy Williams
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Y Senedd

senedd.children@senedd.cymru

12 Tachwedd 2025

Annwyl Buffy

Diolch ichi am lythyr y Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r Rhwydwaith Gweithredu Clinigol Amenedigol ac Uned Gobaith.

Pan wnaethom gyhoeddi ein *Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant* 10 mlynedd newydd ym mis Ebrill, penderfynodd y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl, sy'n rhan o Berfformiad a Gwella'r GIG, adolygu ei strwythurau llywodraethu a gweithredu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth. Roedd hyn yn cynnwys cryfhau arweinyddiaeth glinigol ar draws y rhaglen, gan ei rhoi mewn gwell sefyllfa i gyflawni prif flaenoriaethau'r strategaeth, gan gynnwys y dull mynediad agored ar gyfer iechyd meddwl.

Mae fy swyddogion wedi trafod hyn gyda Ciara Rogers, y cyfarwyddwr cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl, anabledd dysgu a niwrowahaniaeth ym Mherfformiad a Gwella GIG Cymru, a byddai'n hapus i roi sesiwn friffio i'r Pwyllgor pe byddai hynny o gymorth. Gall fy swyddfa helpu i wneud y trefniadau.

Bydd yr adroddiad etifeddiaeth a amlinellir yn fy ymateb cychwynnol yn glir am unrhyw gamau gweithredu agored a mesurau rheoli risg a fydd yn parhau wrth inni reoli'r gwaith a fyddai wedi cael ei gefnogi o'r blaen gan y Rhwydwaith Amenedigol. Byddwn yn sicrhau bod hwn ar gael, gan gynnwys manylion am sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei symud yn ei flaen. Bydd allbynnau'r adroddiad hwn yn cael eu cynnwys yn y gwaith ehangach o weithredu'r *Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant.*

O ran Uned Gobaith, cytunwyd ar hyn yn wreiddiol fel ateb dros dro tra bod arfarniad opsiynau pellach a gwaith adnabod safle yn cael eu cynnal. Gan gydnabod y statws hwn, cafodd adolygiad yn 2024 o ofynion comisiynu iechyd meddwl amenedigol tymor hirach ar gyfer pobl yn y Gogledd ei ehangu i gynnwys Cymru gyfan.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cadarnhawyd felly mai'r drefn ddelfrydol fyddai ehangu Uned Gobaith drwy ychwanegu dau wely. Roedd yn cydnabod nad oedd Uned Gobaith yn uned fam a babanod pwrpasol, ac y dylai cynlluniau yn y dyfodol ystyried uned 8 gwely; byddai'r fethodoleg a ddefnyddir yn yr adroddiad yn helpu i bennu'r lleoliad gorau posibl ar gyfer unrhyw uned newydd.

Mae angen ystyried unrhyw waith yn y maes hwn yn y dyfodol fel rhan o'r strategaeth ystadau cenedlaethol tymor hirach – byddwn felly yn parhau i fuddsoddi yn yr uned i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â safonau CCQI, sy'n cwmpasu gofynion adeiladu a staffio.

Yn gywir,



**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing

# Eitem 4.5

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Peter Fox AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mike Hedges AS
Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

12 Tachwedd 2025

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

Ysgrifennaf atoch i roi diweddariad am Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025 ('Rheoliadau 2025'). Cyn i'n Rheoliadau gael eu gosod ym mis Rhagfyr 2025, roeddwn am roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am ganfyddiadau'r ymgynghoriad a'r camau nesaf.

Ar 2 Hydref, cyhoeddais y Datganiad Ysgrifenedig, a oedd yn amlinellu'r Crynodeb o'r Ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch Bwyta'n Iach mewn Ysgolion. Daeth dros 2,700 o ymatebion i law gan ddysgwyr, rhieni, addysgwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid eraill, sy'n dangos ymroddiad cryf ac ymrwymiad cyffredin i wella safonau bwyd ysgolion yng Nghymru.

Mae fy swyddogion wedi bod yn dadansoddi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi ailgynnull y grwpiau gorchwyl a gorffen amlasiantaethol er mwyn cynghori a phrofi o ran cyfeiriadau polisi pellach.

Yn fras, bydd Rheoliadau 2025 yn diwygio'r safonau a'r gofynion sy'n ymwneud â'r bwyd a'r diod sydd i'w ddarparu mewn ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd i:

- Gynnig mwy o ffrwythau a llysiau er mwyn helpu plant yng Nghymru i fwyta pump y dydd.
- Darparu mwy o rawnydd cyflawn am fod tystiolaeth yn awgrymu nad yw plant yng Nghymru yn bwyta digon o ffeibr.
- Cyfyngu ar fwydydd crwst, pwdinau a nwyddau pob wedi'u melysu, a bwydydd wedi'u ffrio yn seiliedig ar y cyngor deietegol diweddaraf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Cyflwyno dwy safon wahanol o ran egni a maeth ar gyfer y cinio ysgol arferol, yn seiliedig ar grwpiau oedran, i helpu i leihau gwastraff bwyd.
- Cynnig llai o gig wedi'i brosesu a chyfyngu ar ddewisiadau wedi'u prosesu yn lle pysgod a chig a all gynnwys llawer o halen a braster dirlawn.
- Cadw cig coch mewn cymedroldeb er mwyn sicrhau bod plant yn cael budd o'r maethynnau y mae'n eu cynnig heb fwyta gormod ohono.

Yn ogystal, bydd Rheoliadau 2025 yn diwygio Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013") i ddileu pob cyfeiriad at ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd fel y bydd Rheoliadau 2013 wedyn yn gymwys i ysgolion uwchradd.

Fel y dywedais yn yr ymgynghoriad, mae'r sefyllfa o ran bwyd ysgol yn wahanol iawn mewn ysgolion uwchradd, ac mae angen mwy o waith cyn y gellir cynnal adolygiad o'r darpariaethau mewn ysgolion uwchradd. Yn y cyfamser, fel sail i adolygiad o'r fath, mae fy swyddogion wrthi'n ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn sgil y cais am dystiolaeth (fel rhan o'r ymgynghoriad). Mae gwaith hefyd ar y gweill i gasglu data a deall arferion bwyta dysgwyr uwchradd yn well ac, mewn awdurdodau lleol sydd wedi gwirfoddoli i gymryd rhan, mae tystiolaeth yn cael ei chasglu drwy dreialu gwahanol ddulliau gweithredu o ran bwyta'n iach mewn ysgolion uwchradd. Rwy'n rhagweld y bydd yr ymdrechion hyn yn ei gwneud yn bosibl creu sylfaen bolisi gadarn ar gyfer adolygiad yn y dyfodol. Rwyf wedi ymrwymo i adolygu'r rheoliadau o safbwynt ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, oherwydd y cymhlethdod a'r amser sydd wedi bod ar gael imi, ni fu'n bosibl ymgymryd â'r gwaith hwn yn ystod tymor presennol y Senedd.

Os yw eich Pwyllgorau o'r farn y byddai'n ddefnyddiol, hoffwn gynnig cyfle i'r Pwyllgorau gael briff technegol gan fy swyddogion unwaith y bydd Rheoliadau 2025 wedi'u gosod ym mis Rhagfyr. Gall y briff technegol hwn ymdrin â phwrpas y Rheoliadau; y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau; a sut mae'r Rheoliadau wedi'u cynllunio ochr yn ochr â phartneriaid ac wedi'u llywio gan yr ymgynghoriad (gan gynnwys plant a phobl ifanc).

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol, ac edrychaf ymlaen at glywed gennych os hoffech ymuno â sesiwn friffio dechnegol.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education